



**Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 –
Penderfyniad Caniatâd Asesiad Effeithiau Amgylcheddol**

Teitl: Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau, Pwllheli

Cymeradwyaeth Reoliadol: Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)

Gweithredwyr: Cyngor Gwynedd

Rhif yr Adroddiad: Cyf: CDML1319

Lleoliad: Harbwr Pwllheli, Gwynedd

Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw penderfyniad caniatâd Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (EIA) dan Reoliad 22 o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â chais a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd. Cyflwynwyd Datganiad Amgylcheddol i ategu'r cais. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn cefnogi'r cais ac mae bellach mewn sefyllfa i wneud penderfyniad caniatâd EIA i Gyngor Gwynedd.

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud cais am Drwydded Forol i ddatblygu Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau.

Bydd y gwaith sydd angen Trwydded Forol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) yn cynnwys:

- Nifer o angorfeydd pontŵn ychwanegol i'r gogledd o'r pontynau presennol yn y marina
- Pont fynediad
- Wal newydd i'r cei
- Dau graen
- Gwaith cyfalaf (carthu)
- Adeiladu bwnd ac ardal o dir wedi'i adfer gan ddefnyddio deilliannau'r gwaith carthu

Gwaith sydd wedi'i eithrio dan adran 75 Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009)

- Gwaith carthu cynnal a chadw a wneir o dan Ddeddf Harbwr Pwllheli 1983

Gwaith ychwanegol sydd angen Caniatâd Cynllunio o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990) nad yw angen Trwydded Forol (uwchlaw Penllanw Cymedrig Llanw Mawr (MHWS))

- Pownd dros dro ar gyfer contractwyr gyda swyddfeydd a chabanau lles dros dro, yn ogystal â chyfleusterau storio deunydd.
- Tirlunio'r deunydd carthu sydd wedi'i ddyddodi uwchlaw'r MHWS

Y Datganiad Amgylcheddol

Roedd y Datganiad Amgylcheddol yn amlinellu'r effeithiau posibl fel y nodir isod.

Effeithiau Amgylcheddol

Symudiad Dŵr (Hydrodynameg)

Mae'r adran yn trafod hydrodynameg a'r perygl o lifogydd yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu.

Dyma'r prif faterion posibl sy'n cael eu nodi a'u trafod-

Yn ystod y gwaith adeiladu

- Newidiadau i'r gweithrediad hydrodynamig yn lleol ac yn rhanbarthol
- Cynnydd yn symudiad a thyrfedd gwaddodion oherwydd gwaith carthu a phentyrru
- Lleihad yn lefel yr ocsigen hydawdd a daliant halogyddion
- Effaith negyddol ar ansawdd dŵr o ganlyniad i ollwng deunyddiau fel tanwydd neu ddeunyddiau olewog eraill yn ddamweiniol

Pan fydd y cyfleuster ar waith

- Newidiadau i weithrediad hydrodynamig lleol ac effaith hynny ar ansawdd dŵr wrth i waddodion symud
- Perygl i ansawdd dŵr yn sgil mwy o ddefnydd o'r Harbwr.

Gwaddodion a Phridd

Mae'r adran hon yn trafod effeithiau posibl y cynllun dan sylw ar ddynmeg gwaddodion, a halogiad yn lleoliad y cynllun ac o'i gwmpas yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu. Mae gwybodaeth wedi'i chynnwys am ddadansoddi gwaddodion yn yr ardal lle mae carthu cynnal a chadw'n digwydd.

Mae'r materion allweddol sy'n cael sylw yn cynnwys mwy o dyrfedd, lleihad yn lefel yr ocsigen hydawdd a rhyddhau halogyddion.

Ansawdd Dŵr

Trafodir yr effaith ar ansawdd dŵr yn cynnwys Dyfroedd Ymdrochi, Dyfroedd Pysgod Cregyn ac Ardaloedd Dyfrol Trosiannol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Fflora a Ffawna

Mae'r adran hon yn trafod yr effeithiau posibl ar safleoedd a rhywogaethau gwarchoddedig, ecoleg ddyfrol ac ecoleg diriogaethol.

Dyma'r prif faterion a nodwyd:

Yn ystod gwaith adeiladu

- Posibilrwydd o effeithiau andwyol dros dro ar safleoedd dynodedig yn ystod gwaith adeiladu yn sgil effaith ar ansawdd dŵr, gwaddodion mewn daliant, sŵn a tharfu a cholli cynefinoedd.
- Colli cynefin fflatiau llaid, a allai gael effaith negyddol ar adar sy'n gaeafu yno hefyd
- Gallai ail-ddaliant a setliad gwaddodion effeithio ar gynefinoedd rhynglanwol ac islanwol
- Gallai sŵn a golwg y gwaith adeiladu darfu ar boblogaethau adar sy'n gaeafu yno
- Effaith sŵn a dirgryniad gwaith adeiladu (e.e. stancio) ar bysgod, dyfrgwn a theulu'r morfil
- Gallai gweithgareddau carthu achosi gwaddodion mewn daliant a sŵn, gan darfu ar batrymau mudo pysgod
- Posibilrwydd o darfu ar gynefin ar yr Ynys a Pharc y Cob sy'n cael ei ddefnyddio gan

- ehedyddion i fagu ar hyn o bryd neu o'i cholli dros dro
- Posibilrwydd o gyflwyno rhywogaethau anfrodorol i'r amgylcheddau morol a thiriogaethol yn ystod y gwaith adeiladu.

Pan fydd y cyfleuster ar waith

-Mwy o darfu ar deulu'r morfil wrth i ragor o gychod ddefnyddio'r cyfleuster

-Posibilrwydd y bydd rhagor o rywogaethau anfrodorol yn cael eu cyflwyno wrth i ragor o gychod ddefnyddio'r cyfleuster

Trafnidiaeth a Mordwyo

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar dri llwybr mynediad allweddol ac asesiad mordwyo ar y traffig morol yn Harbwr Pwllheli.

Trafod yr effeithiau posibl

Yn ystod y gwaith adeiladu

- Posibilrwydd y bydd defnyddio cerbydau trwm i gludo peiriannau a deunyddiau yn effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol yn y tymor byr
- Posibilrwydd y bydd stancio, carthu a gwaith adeiladu cyffredinol yn tarfu ar fordwyo yn yr harbwr yn y tymor byr

Pan fydd ar waith

-Posibilrwydd y bydd y cynnydd yng nghapasiti'r cyfleuster yn achosi rhagor o draffig, gyda rhagor o ddefnyddwyr yn defnyddio'r safle, yn enwedig yn ystod digwyddiadau

-Posibilrwydd y bydd newidiadau mewn llif, lefelau neu forffoleg y sianel yn effeithio ar fordwyo a mynediad i'r harbwr

-Posibilrwydd y gallai'r cynnydd yng nghapasiti'r cyfleuster olygu bod rhagor o draffig morol yn defnyddio'r safle

Tirwedd ac Amwynder Gweledol

Mae'r adran hon yn trafod yr effeithiau tirweddol a gweledol tebygol

Effeithiau posibl y gwaith adeiladu

-Bydd peirannau a gwaith adeiladu yn effeithio ar amwynder gweledol yr harbwr dros dro yn ystod y gwaith adeiladu

Effeithiau posibl pan fydd ar waith

- Effaith bosibl ar gydrannau Tirwedd Harbwr Pwllheli

- Effaith weledol yn sgil gosod deunydd ar yr ynys – bydd hyn yn newid yr olygfa bresennol dros safle'r Ynys.

Nodwch nad oes dynodiadau tirwedd.

Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol

Mae'r adran hon yn trafod effeithiau posibl y cynllun dan sylw ar archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol.

Materion posibl yn ystod y gwaith adeiladu

Effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol bosibl ar nodweddion archaeolegol neu dreftadaeth o fewn ardal y datblygiad arfaethedig neu yn y cyffiniau

Sŵn a Dirgryniad

Mae'r adran hon yn asesu sŵn a dirgryniad yn ardal y gwaith arfaethedig a gerllaw.

Y broblem bosibl yw y bydd sŵn a dirgryniad y gwaith adeiladu yn achosi niwsans i dderbynyddion sensitif i sŵn lleol.

Asesiad o Effeithiau Cronnus Mae'r adran hon yn asesu effeithiau cyfunol sawl cynllun datblygu na fyddent yn arwyddocaol ar eu pen eu hunain ond a allai gael effaith sylweddol gyda'i gilydd.

Ystyriaethau Amgylcheddol

Saif y datblygiad sydd mewn golwg tua 200m o safle o bwysigrwydd cadwraethol Ewropeaidd, Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llyn a'r Sarnau. O'r herwydd, mae Prawf o Effaith Sylweddol Debygol (TLSE) wedi'i gynnal, ac mae rhagor o fanylion yn y TLSE ar gyfer y prosiect hwn. Mae'n dod i'r casgliad nad oes effaith sylweddol ar yr ACA.

Mae ymgynghoriad â CNC (swyddogaethau Corff Gwarchod Natur Statudol) dyddiedig 15 Tachwedd yn nodi: "Rydym yn cytuno â'ch casgliad [*casgliad yr Awdurdod Cynllunio Lleol*] o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar ACA, AGA neu safle Ramsar cyn belled â bod yr amodau y cyfeirir atynt isod yn berthnasol i unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad."

Yn ogystal â'r safle a warchodir gan Ewrop, gallai'r datblygiad effeithio ar Warchodfa Natur Leol Lôn Cob Bach a SoDdGA Mynydd Tir y Cwmwd a'r Glannau at Garreg yr Imbill, ond daeth asesiad yn y Datganiad Amgylcheddol i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar y safleoedd hyn.

Yn olaf, bydd 2.3ha o gynefin Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Fflat Llaidd Rhynglanwol yn cael ei gollu yn sgil creu'r ardal adfer tir. Gan ei fod yn Rhynglanwol (uwch na'r Distyll Cymedrig (MLW) a hefyd yn is na'r MHWS), mae hwn o fewn awdurdodaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol (Cyngor Gwynedd) – mae pecyn digolledu wedi'i gytuno ar y cyd â CNC ("cynghori"), y Swyddog Bioamrywiaeth Lleol a'r Awdurdod Cynllunio, a bydd yn cael ei roi ar waith fel rhan o'r Caniatâd Cynllunio o dan amod 7, sef bod cynllun digolledu/rheoli ar gyfer y tir wedi'i adfer yn cael ei gyflwyno a'i gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn blwyddyn i ddyddiad y caniatâd hwn.

Dylai'r cynllun amlinellu sut bydd y safle'n cael ei reoli o safbwynt bywyd gwyllt yn ogystal â sut bydd yn cael ei reoli yn y dyfodol.

Ymgynghoriad

Hysbysiadau Cyhoeddus

Cyhoeddwyd yr hysbysiad cyhoeddus yn y Caernarfon and Denbigh Herald ar 5 Medi 2013 ac ar 12 Medi i hysbysu partion â buddiant am y gwaith a oedd mewn golwg ac i roi cyfle i'r partion hynny gyflwyno sylwadau ar y cais yn ôl yr angen. Ni chafwyd sylwadau gan y cyhoedd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y gwaith morol ar 28 Awst 2013 ac anfonwyd y dogfennau perthnasol i'r canlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru - 'swyddogaethau cynghori' (CNC) , Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas), Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD), Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), Ystâd y Goron, yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yr Awdurdod Harbwr Lleol, y Swyddog Bioamrywiaeth Lleol, y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Trinity House (TH), Cadw (Cadw) a Swyddogion Gorfodi Morol, Cangen Bysgodfeydd Llywodraeth Cymru.

Sylwadau a ddaeth i law

O ganlyniad i'r ymgynghoriadau technegol, daeth nifer o sylwadau i law fel yr amlinellir isod. Mae'r rhai a oedd angen ymateb wedi'u hanfon at yr ymgeisydd i gael ei sylwadau, ac mae'r cynghorydd technegol wedi darparu sylwadau ychwanegol ar y rheini. Mae sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol ar bob mater i'w gweld ar ddiwedd pob adran.

Sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru:

Sylwadau dyddiedig 17 Medi 2013

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010

Mae'r cynllun dan sylw ryw 200m o Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA). Nodwn fod datganiad i lywio asesiad prawf o effaith sylweddol debygol o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 wedi'i gyflwyno fel rhan o ddogfennau cefnogi'r cais.

Fodd bynnag, nid ydym yn fodlon bod y wybodaeth a roddwyd fel rhan o'r cais am drwydded/Datganiad Amgylcheddol yn ddigon i gynnal asesiad boddhaol o effaith bosibl y datblygiad ar y safle gwarchodedig yn cynnwys llywio'r Asesiad Rheoliadau Cynefin. Nodir y prif

faterion isod. [Mewn datganiad cryno mae CNC (cyngchori) yn gwrthwynebu'r datblygiad hwn]

- Effeithiau gwaddodion mewn daliant yn sgil carthu

Mae'r prif effeithiau posibl a nodwyd fel rhan o'r cynllun hwn yn cynnwys effeithiau gwaddodion mewn daliant yn sgil carthu. Gallai'r rhain gael effaith negyddol ar nodweddion Creigres a Chilfach a Bae Bas Mawr yr ACA ger ceg yr harbwr, trwy newidiadau mewn tyrfedd a mygu yn bennaf. Mae'r cyflwyniad yn cyfrifo bod disgwyl i 1.04ppm o waddodion a gynhyrchir gan waith carthu adael yr harbwr yn ystod un trai ac yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnydd hwn mewn gwaddod yn debygol o gael effaith negyddol ar nodweddion yr ACA ac na fydd yn cynhyrchu mwy o waddod na'r hyn a ddisgwylir yn ystod penllanw. Ni chredwn fod y sail resymegol dros gredu na fydd y cynnydd mewn gwaddod yn cael unrhyw effaith yn y bae yn ddigonol oherwydd nad yw'n rhoi asesiad digonol o hynt gwaddodion mewn daliant a dyddodiad y gwaddodion mewn daliant hynny mewn sefyllfaoedd realistig a'r sefyllfaoedd gwaethaf posibl ar gyfer y gwaith carthu sydd mewn golwg.

Credir bod angen newid y dull a'r cyfrifiadau a ddefnyddir i asesu effeithiau'r cynnydd mewn gwaddodion er mwyn rhoi asesiad digon trylwyr o hynt a dyddodiad gwaddodion mewn daliant (h.y. pa mor bell i mewn i'r bae y rhagwelir y bydd gwaddodion mewn daliant yn teithio ac a yw lefelau'r gwaddodion mewn daliant yn perthyn i'r amrediad arferol ar gyfer yr ardal honno).

Mae angen asesiad diwygiedig o effaith gwaddodion mewn daliant.

Ymateb yr ymgeisydd:

Cyflwynwyd asesiad sgrinio cynefinoedd newydd, yn cynnwys yr asesiad diwygiedig o waddodion mewn daliant i ymateb i bryderon cyngchori CNC.

Ymateb CNC i sylwadau/dogfennau newydd yr ymgeisydd

Rydym yn fodlon bod y cyflwyniad bellach yn golygu bod modd asesu effaith bosibl y datblygiad dan sylw ar Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Rydym yn cytuno â'ch casgliad o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar ACA, AGA neu safle Ramsar cyn belled â bod yr amodau y cyfeirir atynt isod yn berthnasol i unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.

Yn achos un manylyn, hoffem nodi nad ydym yn cytuno â'r sylw canlynol yng nghasgliad y Datganiad i lywio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (t41), sef bod ymchwiliad i'r gwaddod a gynhyrchir gan waith carthu wedi dangos bod lefelau'r gwaddod a gynhyrchir yn isel ac er bod peth gwaddod yn debygol o adael yr harbwr yn ystod gwaith carthu, bod y dŵr sy'n gadael yr harbwr yn gwanedu i bob pwrpas y llwyth gwaddod yn y Bae hyd yn oed yn ystod gwaith carthu felly na ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar nodweddion yr ACA. Tybir bod y sylw hwn yn camliwio'r sefyllfa go iawn gan fod y mewnbwn afonol yn arllwysiad parhaus sy'n cyfrannu at natur gyffredinol y corff dŵr ym Mae Tremadog, ac ni ddylid awgrymu ei fod yn lliniaru'r cynnydd bach yn y llwyth gwaddod a fydd yn cael ei arllwys i Fae Tremadog o ganlyniad i waith carthu.

Credwn y byddai'n fwy priodol i'r rhan hon o'r casgliad ddweud bod ymchwiliad i'r gwaddod a gynhyrchir gan waith carthu wedi dangos bod lefelau'r gwaddod a gynhyrchir yn isel ac er bod peth gwaddod yn debygol o adael yr harbwr yn ystod gwaith carthu, bod y cyfanswm yn fach iawn ac y bydd yn gwasgaru'n gyflym yng nghorff dŵr Bae Tremadog. Nodwch hefyd nad ydym yn cytuno chwaith â'r datganiad yng nghasgliad y Datganiad i lywio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n dweud nad yw'r nodweddion creigres yn yr ardal hon yn arbennig o sensitif i newidiadau mewn tyrfedd.

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno i gefnogi'r datganiad hwn. Mae rhai o'r nodweddion

creigres yn y bae yn gynefinoedd creigiau islanwol sy'n cynnal cymunedau o algâu sy'n sensitif i newidiadau mewn tyrffedd.

- Effeithiau gwaddodion mewn daliant sy'n deillio o waith carthu

Roedd ein sylwadau cychwynnol ar y cynnig yn nodi mai prif effeithiau posibl y datblygiad ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau allai fod effeithiau negyddol gwaddodion mewn daliant sy'n deillio o waith carthu ar nodweddion creigres a chilfach a bae bas mawr yr ACA ger ceg yr harbwr, yn sgil newidiadau mewn tyrffedd a mygu yn bennaf.

Rydym yn fodlon bod Adendwm Atodiad A yn rhoi sail resymegol ddigonol ar gyfer asesu hynt y gwaddodion mewn daliant a dyddodiad y gwaddodion mewn daliant hynny mewn senarios realistig ac yn y senarios gwaethaf ar gyfer y gwaith carthu mewn golwg.

Rydym yn fodlon felly na fydd effeithiau gwaddodion mewn daliant sy'n deillio o waith carthu yn cael effaith negyddol ar nodweddion creigres a chilfach a bae bas mawr yr ACA, ac felly na fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, cyn belled â bod y mesurau lliniaru a'r amodau a nodir ymhellach isod ac yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu gweithredu ac y cedwir atynt.

Cafwyd esboniad yn ein cyfarfod y bydd cyfanswm o 81,000m³ o waddod yn cael ei garthu (32,000m³ o Garthu Cynnal a Chadw a 49,100m³ o Garthu Cyfalaf).

O ran rhyddhau gwaddodion o'r ardal adeiladu bwnd a'r ardal storio deilliannau carthu, rydym yn gwneud cais bod unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir ar gyfer y datblygiad yn cynnwys amod i gyflwyno datganiad dull a ddylai gael ei gytuno cyn dechrau'r datblygiad. Dylai'r datganiad roi manylion llawn y dull carthu, adeiladu wal y cei, pontynau ac adeiladu bwnd.

Fel yr argymhellwyd, mae'r asesiad bellach yn ystyried y senario waethaf, gan ddefnyddio trai 5m³ i gyfrifo faint o waddodion fydd yn cael eu rhyddhau ac at ddibenion modelu, a bod 2% yn cael ei ddefnyddio fel y senario waethaf o ran colli gwaddodion o'r peiriant carthu. Mae'r cyfrifon sy'n seiliedig ar yr uchod bellach yn dangos bod 2.5m³ o waddod wedi'i garthu'n cael ei ryddhau i Fae Ceredigion.

O ran asesu effeithiau pluen waddod (y lefel a'r math) yn y cae pellaf y tu allan i fynedfa'r harbwr, rydym yn fodlon bod y dystiolaeth wedi dangos y bydd y gwaddodion yn teithio tua'r dwyrain.

O ran proses arfordirol, cyfeiriwyd at Beilot Pwllheli: Strategaeth Addasu ar gyfer Newid Hinsawdd a baratowyd gan Halcrow. Fel rhan o'r cynllun peilot hwn, paratowyd Adroddiad Llinell Sylfaen Geomorffolegol Pwllheli 2011 sy'n rhoi manylion newidiadau hanesyddol i'r arfordir ac yn nodi prosesau arfordirol cyfredol ym Mhwllheli. Rydym yn fodlon bod y wybodaeth hon yn rhoi manylion effeithiau gwasgarol cerrynt llanwol yn y bae, yn cynnwys y cyflymder a'r cyfeiriad.

Yn ogystal, mae gwybodaeth wedi'i darparu am ganlyniadau ymgyrchoedd carthu blaenorol i lywio'r asesiad o hynt gwaddod mewn daliant.

Mae bellach yn rhesymol dod i'r casgliad bod unrhyw waddod sy'n cael ei ryddhau o geg yr harbwr yn debygol o deithio tua'r dwyrain er y bydd rhywfaint o'r gwaddod yn cael ei ddyddodi yn llwybr braich yr harbwr.

Ar ôl cael rhagor o wybodaeth, rydym yn fodlon bellach na fydd y datblygiad dan sylw yn cael effaith sylweddol ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau cyn belled â bod yr amodau canlynol yn berthnasol i unrhyw drwydded forol a roddir i'r datblygiad arfaethedig.

I gloi, nid yw CNC yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ar yr amod bod y cyngor uchod yn cael ei weithredu a bod yr amodau a restrir yn berthnasol i unrhyw drwydded forol a roddir i'r datblygiad arfaethedig.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Mae'r ymgeisydd wedi ymateb yn foddhaol i bryderon cyngori CNC ac ni fydd y datblygiad yn cael effaith ar safleoedd a warchodir gan Ewrop. Bydd yr amodau a argymhellir yn cael eu cynnwys yn y Drwydded Forol

- Nodweddion ACA a nodir yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Yn ogystal â'r nodweddion safle gwarchoddedig a nodwyd, mae angen ystyried y boblogaeth o'r amffipod cenedlaethol-brin *Pectenogammarus planicurus* i'r gorllewin o geg yr harbwr. Mae'r rhywogaeth yn sensitif iawn i newidiadau ym maint gronynnau a goleddf (mae angen gronynnau o faint penodol i oroesi). Gallai unrhyw siltio yn y cynefin hwn gael effaith sylweddol ar boblogaeth sy'n un o is-nodweddion y nodwedd cilfach a bae bas mawr).

Mae'r asesiad yn y Datganiad Amgylcheddol na fydd effaith ar y gwymon coch *Anotrichium barbatum* a *Dermocorynus montagnei* sy'n rhan o nodwedd cilfach a bae bas mawr yr ACA yn seiliedig ar y casgliadau ynghylch hynt gwaddodion mewn daliant. Yn sgil ein sylwadau ar hyn (gweler uchod), ni chredwn ei bod hi'n bosibl barnu na fydd effaith ar sail y wybodaeth a roddir yn y dogfennau ar hyn o bryd. Mae *Anotrichium barbatum* a *Dermocorynus montagnei* yn rhan o nodwedd cilfach a bae bas mawr ACA Pen Llŷn a'r Sarnau SAC a dylid cyfeirio atynt yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Cyflwynwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac fe'i cymeradwywyd gan CNC (cyngori) – gweler uchod.

- Rhywogaethau anfrodorol a Bioddiogelwch

Byddem yn dymuno cael asesiad o'r risg i fioggiogelwch ar y cam [ymgeisio] ynghyd â rhagor o fanylion am gynllun y pontŵn. Mae'r cyflwyniad yn nodi y bydd asesiad o'r fath yn cael ei gynnal gan y contractwr ac Ymgynghoriaeth Gwynedd cyn i'r gwaith ddechrau, ac yn ystod y gwaith, bydd cod ymarfer bioddiogelwch yn cael ei hyrwyddo yn y cyfleuster.

Os na fydd asesiad o'r risg i fioggiogelwch ar gael yn y cam ymgeisio, byddem yn disgwyl i gyflwyno asesiad o'r fath fod yn amod i unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir ar gyfer y datblygiad ynghyd â Datganiad Rheoli Amgylcheddol, y ddau i gael eu cytuno gyda CNC cyn dechrau unrhyw waith ar y safle.

Byddem yn disgwyl i gynlluniau pontynau hawdd i'w glanhau hwyluso gwaith archwilio a glanhau yn y dyfodol i fynd i'r afael â rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol, ymhlith pethau eraill. Os na fydd manylion pellach am gynllun y pontŵn ar gael adeg cyflwyno cais cynllunio, byddem yn disgwyl bod cyflwyno cynlluniau pontŵn a chael cydsyniad CNC eu bod yn addas i reoli rhywogaethau anfrodorol ymledol cyn eu gosod yn amod i gael caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Bydd amodau'n cael eu cynnwys i ymateb i'r pryderon hyn

- Digolledu am golli fflat llaid rhynglanwol

Mae CNC o'r farn bod angen pecyn digolledu sydd wedi'i baratoi'n ofalus i wneud yn iawn am golli fflat llaid yn sgil y cynnig, yn cynnwys pecyn sy'n gysylltiedig â'r Warchoda Natur Leol bresennol ac

sy'n cynnig posibilrwydd gwirioneddol o fanteision i fioddiogelwch.

-sylwadau ychwanegol a gafwyd gan CNC (cyngori) dyddiedig 25/09/2013

Gallaf gadarnhau y bydd y cynllun digolledu ar gyfer y Cynefin Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn ddarostyngedig i unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir ar gyfer y datblygiad dan sylw.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol:

Mae pecyn digolledu ar gyfer colli fflat llaid rhynglanwol wedi'i gytuno gyda'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd hwn yn cael ei roi ar waith fel rhan o'r Caniatâd Cynllunio o dan amod 7, sef bod cynllun digolledu/rheoli ar gyfer y tir wedi'i adfer yn cael ei gyflwyno a'i gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn blwyddyn i ddyddiad y caniatâd hwn. Dylai'r cynllun amlinellu sut bydd y safle'n cael ei reoli o safbwynt bywyd gwyllt yn ogystal â sut bydd yn cael ei reoli yn y dyfodol.

Mae swyddogaethau cyngori CNC a'r Swyddog Bioamrywiaeth Lleol wedi barnu bod y pecyn digolledu'n foddhaol, ac nid oes angen rhagor o fesurau lliniaru fel rhan o'r drwydded forol.

- Buddiannau Lleol a Rhanbarthol

Nodwch nad ydym wedi ystyried effeithiau posibl ar bob buddiant lleol neu ranbarthol (yn cynnwys cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol). Felly ni ddylech ddiystyru'r posibilrwydd o effeithiau andwyol ar fuddiannau o'r fath. Dylai'ch penderfyniad ystyried effeithiau andwyol posibl ar fuddiannau o'r fath.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: nodwyd, ymgynghorwyd â'r Swyddog Bioamrywiaeth Lleol a'r RSPB fel rhan o'r ymgynghoriad. Ni wnaeth yr un ohonynt ymateb i'r ymgynghoriad.

Perygl o Llifogydd

Mae Adran 82 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn nodi na fydd angen Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, cyn belled â'n bod yn fodlon bod modd cynnwys yr holl amodau a fyddai'n ofynnol gennym yn y Drwydded Forol.

Yn yr achos hwn, oherwydd natur y gwaith, nid ydym yn rhagweld y bydd angen Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd. Nodwch, fodd bynnag, os na chredwn fod amodau'r Drwydded Forol yn ymdrin yn llawn â'n pryderon am lifogydd, ein bod yn cadw'r hawl i fynnu eich bod yn gwneud cais am Ganiatâd o dan delerau Deddf Adnoddau Dŵr 1991.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Nodwyd

Rheoli Gwastraff a Llygredd

Mae gwaith ymgynghori cyn-cynllunio wedi bod yn mynd rhagddo ar y cynnig hwn ynghylch rheoli deunydd carthu. Bydd deunydd carthu'n cael ei ddefnyddio i adfer tir a darparu manteision amgylcheddol i wneud yn iawn am golli ardal o fflat llaid yn yr harbwr.

Rydym yn argymhell llunio Cynllun Rheoli Gwastraff Safle cyn dechrau'r cynllun er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gofal llawn. Dylid ailddefnyddio gwastraff ar y safle lle bynnag y bo'n bosibl. Dylai'r Cynllun Rheoli Gwastraff Safle gynnwys system ar gyfer monitro gwastraff sy'n cael ei gludo oddi ar y safle i'w ailddefnyddio neu ei waredu. Rhaid cludo unrhyw wastraff sy'n gadael y safle i gyfleuster â thrwydded addas gan gludydd gwastraff cofrestredig.

Dylid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru pan fydd gwaith yn dechrau ar y safle.

Bydd unrhyw waith a wneir yn rhoi sylw priodol i ganllawiau PPG5 Asiantaeth yr Amgylchedd wrth weithio mewn neu gerllaw cyrsiau dŵr. Os bydd digwyddiad sy'n achosi llygredd, neu a allai achosi llygredd, rhaid rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r llinell ddigwyddiadau ar 0800 807060 gan roi dyddiad, amser, lleoliad, unrhyw fesurau lliniaru sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith ac enw a rhif ffôn cyswllt.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: bydd amodau'n cael eu cynnwys yn y drwydded yn seiliedig ar y sylwadau uchod.

Sylwadau Cefas:

Rhoddodd Cefas sylwadau ar y materion canlynol o dan y penawdau A-K:

A: Pysgodfeydd pysgod cregyn

1. Nid oes parthau cynhyrchu pysgod cregyn molysgaidd masnachol dynodedig yng nghyffiniau'r gwaith dan sylw felly nid yw'r rhain yn berthnasol i'r prosiect hwn.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: nodwyd

B: Adnoddau pysgod

2. Mae'r cynllun dan sylw yn gymharol fach yn ofodol ac rwy'n cytuno y bydd yr effeithiau ar y rhan fwyaf o rywogaethau pysgod sy'n byw yno wedi'u cyfyngu i ardal benodol ac yn rhai o natur dros dro, h.y. wedi'u cyfyngu i'r cyfnod adeiladu. Mae'r effeithiau ar bysgod o bwys cadwraethol wedi'u hasesu a'u cydnabod yn glir. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos bod y rhywogaethau hyn (eog, siwin, llysywen bendoll yr afon a'r llysywen Ewropeaidd) yn defnyddio Harbwr Pwllheli wrth fudo. Rwy'n cytuno â'r crynodeb o'r effeithiau a roddir yn y Datganiad Amgylcheddol ar gyfer pysgod yn ystod y gwaith adeiladu - arwyddocâd andwyol cymedrol.
3. Mae dystiolaeth wedi'i chasglu ar raddfa ofodol briodol - mae rhywogaethau allweddol o bwys wedi'u nodi ac mae'r effeithiau lleol a chenedlaethol ar rywogaethau pysgod wedi'u hystyried. Cyfeirir at y llysywen Ewropeaidd fel rhywogaeth â blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn y Datganiad Amgylcheddol. Er hynny, nid yw'r Datganiad Amgylcheddol yn sôn ei bod hefyd wedi'i chynnwys ar Restr Goch yr IUCN o Rywogaethau dan Fygythiad fel rhywogaeth sydd mewn perygl difrifol a dylid newid hyn.
4. Gellid bod wedi rhoi rhagor o fanylion drwy gysylltu â physgotwyr lleol, yn enwedig y rhai sy'n pysgota ar Afonydd Erch a Rhyd-hir. Yn Adran 9.5, tudalen 121, byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael rhagor o fanylion yn ymwneud â'r data meintiol a roddir ar gyfer y rhywogaeth sy'n destun pryder cadwraethol. Cyfeirir at ddata arolwg ar gyfer larfau llysywen bendoll, data dalfeydd ar gyfer llyswennod a gwybodaeth gan bysgodfeydd am eog a siwin ond ni ddarperir manylion dulliau dal neu arolygu, ac mae angen y wybodaeth hon.
5. Rwy'n cytuno bod y mesurau a amlinellir i liniaru'r effaith ar bysgod, a rhywogaethau pysgod

mudol pwysig (eog, siwin, llyswennod Ewropeaidd) yn arbennig, yn briodol. Fodd bynnag, dim ond os cedwir at yr amserau a roddir yn y rhaglen adeiladu y bydd hyn yn wir. Bydd yr effaith ar bysgod yn deillio o darfu yn ystod gwaith stancio a charthu gan mwyaf. Bydd yr ymrwymiad i ddechrau gwaith stancio yn dawel a chynyddu'r sŵn yn raddol yn gostwng y tarfu hyn ac yn rhoi cyfle i bysgod osgoi'r sŵn. Yn ogystal, dim ond yn ystod y dydd y bydd gwaith stancio'n digwydd. Fel hyn, bydd cyfnod sylweddol heb darfu ym mhob 24 awr felly gall pysgod symud i mewn ac allan o'r harbwr ar yr adegau hyn. Mae amseru'r gwaith stancio rhwng mis Rhagfyr a Chwefror yn golygu ei fod i raddau helaeth yn osgoi'r cyfnod pwysig prysuraf pan fydd rhywogaethau pwysig (ac eithrio llysywen bendoll yr afon) yn teithio drwy Harbwr Pwllheli wrth fudo - rhwng mis Mawrth a mis Hydref ar gyfer teulu'r eog a'r llysywen Ewropeaidd.

6. Bydd gwaith carthu yn amharu ar symudiadau mudo unrhyw bysgod sy'n ceisio mynd i mewn neu allan o Harbwr Pwllheli hefyd ac, fel gyda'r gwaith stancio, bydd effeithiau'n cael eu lliniaru i ryw raddau drwy sicrhau ei fod yn digwydd ar adeg lai pwysig o'r flwyddyn ar gyfer symudiadau pysgod. Fodd bynnag, yn wahanol i waith stancio, gofynnir am ganiatâd i garthu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos am gyfnod o ryw 12 wythnos gan ddechrau yng nghanol mis Tachwedd 2013. Dywed y Datganiad Amgylcheddol (tudalen 138) y bydd cyfnodau rheolaidd pan nad oes unrhyw waith carthu'n digwydd - newid shifft, ail-alinio'r peiriant carthu ac ati - ond nid yw'n dweud faint o'r seibiannau hyn fydd a faint byddan nhw'n para mewn cyfnod o 24 awr. Rwy'n gwerthfawrogi bod ymgais i gyfrif yr amser pan na fydd carthu'n digwydd dros gyfnod o wythnos, a chyfrifir y bydd hyn tua 30% o'r amser. Fodd bynnag, yn bwysicach na hyn mae gwybodaeth am yr amser heb unrhyw darfu ym mhob cyfnod o 24 awr. Er mwyn lliniaru'r effaith ar rywogaethau mudol yn effeithiol yn ystod y gwaith carthu cyfalaf yn gyffredinol, mae angen seibiannau rheolaidd sawl awr o hyd ym mhob cylch 24 awr. Bydd hyn yn rhoi'r amser sydd ei angen ar bysgod i deithio drwy'r ardal heb i sŵn neu unrhyw beth arall darfu arnynt. Felly hoffwn gadarnhad am faint o'r oriau gwaith dros gyfnod o 24 awr y bydd y peiriant carthu'n segur yn ystod y gwaith carthu cyfalaf oherwydd hoffwn fod yn fodlon y bydd digon o amser ar gyfer symudiadau pysgod yn ystod pob cylch dydd/nos yn ystod y gwaith carthu.
7. Mae'r effeithiau ar rywogaethau mudol fel y cânt eu hasesu ar hyn o bryd yn y Datganiad Amgylcheddol yn dibynnu ar y dybiaeth y bydd gwaith stancio a charthu wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror (ac mae'n un o'r mesurau lliniaru a gynigir)). Nid yw'n rhoi unrhyw asesiad o effeithiau os bydd y gwaith yn hwyr ac yn para tan fis Mawrth. Heb y dystiolaeth hon, ac i sicrhau bod y rhywogaethau hyn a rhai eraill o ddiddordeb cadwraeth sy'n defnyddio Harbwr Pwllheli yn cael eu gwarchod cystal â phosibl, byddwn yn awgrymu na ddylai gwaith stancio a charthu ymestyn i fis Mawrth 2014. Os bydd angen stancio/carthu yn hwyrach na mis Chwefror, bydd angen ailasesu'r effeithiau yn unol â'r amserlen newydd.

Nodir Ymateb yr Ymgeisydd i bob datganiad sydd angen ymateb isod (YY).

“Adnoddau pysgod

1. Mae'r cynllun dan sylw yn gymharol fach yn ofodol ac mae Cefas yn cytuno y bydd yr effeithiau ar y rhan fwyaf o rywogaethau pysgod sy'n byw yno wedi'u cyfyngu i ardal benodol ac yn rhai o natur dros dro, h.y. wedi'u cyfyngu i'r cyfnod adeiladu. Mae'r effeithiau ar bysgod o bwys cadwraethol wedi'u hasesu a'u cydnabod yn glir. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos bod y rhywogaethau hyn (eog, siwin, llysywen bendoll yr afon a'r llysywen Ewropeaidd) yn defnyddio Harbwr Pwllheli wrth fudo. Mae Cefas yn cytuno â'r crynodeb o'r effeithiau a roddir yn y Datganiad Amgylcheddol ar gyfer pysgod yn ystod y gwaith adeiladu - arwyddocâd andwyol cymedrol.

YY: Nodwyd

2. Mae tystiolaeth wedi'i chasglu ar raddfa ofodol briodol - mae rhywogaethau allweddol o bwys wedi'u nodi ac mae'r effeithiau lleol a chenedlaethol ar rywogaethau pysgod wedi'u hystyried. Cyfeirir at y llysywen Ewropeaidd fel rhywogaeth â blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn y Datganiad Amgylcheddol. Er hynny, nid yw'r Datganiad Amgylcheddol yn sôn ei bod hefyd wedi'i chynnwys ar Restr Goch yr IUCN o Rywogaethau dan Fygythiad fel rhywogaeth sydd mewn perygl difrifol a dylid newid hyn.

YY: Nodwyd. Ni chredwn fod hyn yn newid arwyddocâd yr effaith ar y llysywen Ewropeaidd a nodwyd.

3. Gellid bod wedi rhoi rhagor o fanylion drwy gysylltu â physgotwyr lleol, yn enwedig y rhai sy'n pysgota ar Afonydd Erch a Rhyd-hir. Yn Adran 9.5, tudalen 121, byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael rhagor o fanylion yn ymwneud â'r data meintiol a roddir ar gyfer y rhywogaeth sy'n destun pryder cadwraethol. Cyfeirir at ddata arolwg ar gyfer larfau llysywen bendoll, data dalfeydd ar gyfer llyswennod a gwybodaeth gan bysgodfeydd am eog a siwin ond ni ddarperir manylion dulliau dal neu arolygu, ac mae angen y wybodaeth hon.

YY: Mae data arolwg Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, sef sail yr asesiad, ynghlwm. Ni chredwn y byddai'n briodol cysylltu â physgotwyr lleol yn yr achos hwn gan mai ychydig iawn o bysgota sy'n digwydd ar Afonydd Erch a Rhyd-hir. Mae gan glwb pysgota Pwllheli hawliau i bysgota ar rai rhannau o'r afon a rhaid i aelodau roi manylion yr hyn y byddan nhw'n ei ddal. Fodd bynnag, mae sawl rhan o'r afon mewn dwylo preifat, â'r hawliau pysgota'n eiddo i berchennog y tir neu'n cael eu llogi i unigolion. Er mwyn gallu cael manylion cywir am ddalfeydd gan bysgotwyr, felly, byddai angen chwilio'r holl hawliau pysgota yn y dalgylch. Ni chredwn fod hyn yn briodol yn yr achos hwn felly rydym wedi defnyddio data Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

4. Mae Cefas yn cytuno bod y mesurau a amlinellir i liniaru'r effaith ar bysgod, a rhywogaethau pysgod mudol pwysig (eog, siwin, llyswennod Ewropeaidd) yn arbennig, yn briodol. Fodd bynnag, dim ond os cedwir at yr amserau a roddir yn y rhaglen adeiladu y bydd hyn yn wir. Bydd yr effaith ar bysgod yn deillio o darfu yn ystod gwaith stancio a charthu gan mwyaf. Bydd yr ymrwymiad i ddechrau gwaith stancio yn dawel a chynyddu'r sŵn yn raddol yn gostwng y tarfu hyn ac yn rhoi cyfle i bysgod osgoi'r sŵn. Yn ogystal, dim ond yn ystod y dydd y bydd gwaith stancio'n digwydd. Fel hyn, bydd cyfnod sylweddol heb darfu ym mhob 24 awr felly gall pysgod symud i mewn ac allan o'r harbwr ar yr adegau hyn. Mae amseru'r gwaith stancio rhwng mis Rhagfyr a Chwefror yn golygu ei fod i raddau helaeth yn osgoi'r cyfnod pwysig prysuraf pan fydd rhywogaethau pwysig (ac eithrio llysywen bendoll yr afon) yn teithio drwy Harbwr Pwllheli wrth fudo - rhwng mis Mawrth a mis Hydref ar gyfer teulu'r eog a'r llysywen Ewropeaidd.

YY: Gweler yr ymateb i Bwynt 6

5. Bydd gwaith carthu yn amharu ar symudiadau mudo unrhyw bysgod sy'n ceisio mynd i mewn neu allan o Harbwr Pwllheli hefyd ac, fel gyda'r gwaith stancio, bydd effeithiau'n cael eu lliniaru i ryw raddau drwy sicrhau ei fod yn digwydd ar adeg lai pwysig o'r flwyddyn ar gyfer symudiadau pysgod. Fodd bynnag, yn wahanol i waith stancio, gofynnir am ganiatâd i garthu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos am gyfnod o ryw 12 wythnos gan ddechrau yng nghanol mis Tachwedd 2013. Dywed y Datganiad Amgylcheddol (tudalen 138) y bydd cyfnodau rheolaidd pan nad oes unrhyw waith carthu'n digwydd - newid shifft, ail-alinio'r peiriant carthu ac ati - ond nid yw'n dweud faint o'r seibiannau hyn fydd a faint byddan nhw'n para mewn cyfnod o 24 awr. Mae Cefas yn gwerthfawrogi bod ymgais i gyfrif yr amser pan na fydd carthu'n digwydd dros gyfnod o wythnos, a chyfrifir y bydd hyn tua 30% o'r amser. Fodd bynnag, yn bwysicach na hyn mae gwybodaeth am yr amser heb unrhyw darfu ym mhob cyfnod o 24 awr. Er mwyn lliniaru'r effaith ar rywogaethau mudol yn effeithiol yn ystod y gwaith carthu cyfalaf yn gyffredinol, mae angen seibiannau rheolaidd sawl awr o hyd ym mhob cylch 24 awr. Bydd hyn yn rhoi'r amser sydd ei angen ar bysgod i deithio drwy'r ardal heb i sŵn neu unrhyw beth arall darfu arnynt. Felly hoffai Cefas gael cadarnhad am faint o'r oriau gwaith dros gyfnod o 24 awr y bydd y peiriant carthu'n segur yn ystod y gwaith carthu cyfalaf oherwydd hoffai Cefas fod yn fodlon y bydd digon o amser ar gyfer symudiadau pysgod yn ystod pob cylch dydd/nos yn ystod y gwaith carthu.

YY: Gweler yr ymateb i Bwynt 6

6. Mae'r effeithiau ar rywogaethau mudol fel y cânt eu hasesu ar hyn o bryd yn y Datganiad Amgylcheddol yn dibynnu ar y dybiaeth y bydd gwaith stancio a charthu wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror (ac mae'n un o'r mesurau lliniaru a gynigir). Nid yw'n rhoi unrhyw asesiad o effeithiau os bydd y gwaith yn hwyr ac yn para tan fis Mawrth. Heb y dystiolaeth hon, ac i sicrhau bod y rhywogaethau hyn a rhai eraill o ddiddordeb cadwraethol sy'n defnyddio Harbwr Pwllheli yn cael eu gwarchod cystal â phosibl, byddwn yn awgrymu na ddylai gwaith stancio a charthu ymestyn i fis Mawrth 2014. Os bydd angen stancio/carthu yn hwyrach na mis Chwefror, bydd angen ailasesu'r effeithiau yn unol â'r amserlen newydd.

YY: Ymateb i Bwyntiau 4, 5 a 6.

Roedd ymgynghoriad ag adran Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wrth gynllunio'r prosiect wedi cadarnhau'r canlynol:

*Nid oes amser delfrydol ar gyfer gwaith stancio/carthu oherwydd mae rhediadau eog, siwin, llysywen bendoll yr afon a llyswennod yn afonydd Rhyd-hir ac Erch yn digwydd ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Dyma ddwy o'r afonydd prin yng Nghymru sydd â rhediadau eog 'blueback' (*Oncorhynchus nerka*) o hyd. Mae'r rhywogaethau hyn yn cyrraedd yr afonydd ddiwedd mis Ionawr*

a dechrau mis Chwefror ac yn silio o fewn dyddiau, cyn dychwelyd i'r môr ar unwaith. Mae rhediad gleisiaid (eog, siwin) yn digwydd ddiwedd mis Ebrill a mis Mai.

Ni soniwyd am broblemau gydag amseriad y gwaith stancio yn ystod trafodaethau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yn enwedig o ystyried mai dim ond yn ystod golau dydd y bydd gwaith stancio'n digwydd, felly bydd pysgod yn rhydd i deithio drwy'r harbwr ar bob adeg arall.

Cadarnhaodd yr Asiantaeth hefyd na fyddent yn gwrthwynebu amseriad y gwaith os sicrhewr llwybr clir mewn rhan o'r sianel yn ystod y gwaith. Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy'r seibiannau rheolaidd yn y gwaith carthu a ddisgrifir isod. Hefyd, bydd y gwaith carthu'n digwydd mewn ardal benodol felly ym mhob achos bron, ni fydd unrhyw darfu yn rhan o'r harbwr a'r sianel er mwyn i bysgod allu mynd a dod.

Ni fydd carthu'n digwydd yn ystod 30% o'r oriau gweithredu. Cyfrifwyd y ffigur hwn drwy ddefnyddio data a roddwyd gan y contractwr sy'n dangos y bydd carthu'n digwydd yn ystod 120 awr o'r 168 awr waith mewn wythnos. Bydd gweddill yr amser yn cael ei dreulio'n newid gweithwyr (am hanner dydd a hanner nos, gan gymryd tua awr), rhoi tanwydd yn y peiriannau, symud y peiriant carthu a gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Ar wahân i newid gweithwyr, mae'n anodd rhoi ffigur manwl gywir i'r gweithgareddau eraill, gan y bydd yn dibynnu ar leoliad y gwaith carthu, natur y deunydd ac ati. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, ni fydd gwaith carthu'n digwydd am 7.2 awr ym mhob cyfnod o 24 awr.

O'n hymgyngoriad â'r Asiantaeth, a nododd nad oedd amser delfrydol ar gyfer gwneud y gwaith hwn, rydym ar ddeall ei bod hi'n bwysig sicrhau nad oes unrhyw darfu mewn rhyw ran o'r sianel bob amser. Fel y nodir yn y Datganiad Amgylcheddol, pan ystyrir y lleoliad sydd mewn golwg ar gyfer y gwaith carthu mewn perthynas ag ardal Harbwr Pwllheli, gellir gweld y byddai pellter o 60 i 100m ar gael rhwng y peiriant carthu a'r distyll cymedrig yn y rhan fwyaf o fasn y marina. Yn ystod penllanw, bydd y pellter hwn yn cynyddu'n sylweddol a bydd y ddŵr yn y sianel yn ddyfnach hefyd. Felly, pan fydd gwaith carthu'n digwydd yn y manau hyn, ystyrir y bydd digon o le o boptu'r cyfarpar carthu i bysgod deithio heb gael eu tarfu.

Yn ystod gwaith carthu cynnal a chadw ar sianel fynediad yr harbwr, bydd ymylon yr ardal garthu o fewn tua 10-15m o linell y distyll cymedrig. Gyferbyn â'r morlyn distyllu presennol, mae ardal y gwaith carthu sydd mewn golwg ar linell y distyll cymedrig. Gallai hyn rwystro symudiad pysgod adeg llanw isel. Unwaith eto, yn ystod penllanw, mae mwy o bosibilrwydd y gall pysgod basio'r peiriant carthu oherwydd bod mwy o ddŵr yn yr harbwr.

Fel y nodir uchod, bydd y rhwystr mwyaf i bysgod yn ystod gwaith carthu cynnal a chadw yn sianel fynediad yr harbwr adeg distyll, gan mai dyma ran gulaf yr harbwr. Yn y cyfamser rydym wedi edrych eto ar yr angen i garthu yn yr ardal hon yn dilyn gwaith i lefelu'r gwely, a gallwn gadarnhau y bydd angen carthu rhyw 1400m³ o ddeunydd o'r sianel fynediad gyfan. Gan ystyried bod y peiriant carthu'n gallu symud hyd at 965m³ y dydd, rydym yn rhagweld y byddai carthu yn yr ardal hon yn cymryd 4 diwrnod (gan gymryd nad yw'r peiriant carthu ar waith drwy'r amser ac i allu symud y peiriant carthu – sef y senario waethaf bosibl).

Heb ystyried y seibiannau yn y gwaith carthu, mae hyn yn golygu mai dim ond ar 8 adeg wahanol ar y mwyaf y byddai angen carthu'r naill ochr i'r distyll a'r llall o fewn y sianel. Ni chredwn y byddai

hyn yn achosi rhwystr sylweddol i symudiad pysgod yn yr harbwr.

Gan ein bod ni eisoes wedi cytuno ar y dull uchod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (CNC bellach) a bod yr un dull yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith carthu cynnal a chadw, ein gobaith yw y gellir addasu'r dull hwn ar gyfer y ddwy ardal garthu er cysondeb.

Ymateb Cefas i Sylwadau'r Ymgeisydd

O ran adnoddau pysgod (paragraffau 1-6 isod), hoffwn wneud y sylwadau canlynol:

Mae darparu amcangyfrif o'r oriau na fydd gwaith carthu'n digwydd mewn cyfnod o 24 awr yn egluro faint o amser fydd ar gael i bysgod symud heb gael eu tarfu. Nodir y cadarnhad ychwanegol am faint o le a fydd ar gael i bysgod symud yn ystod gwaith stancio/carthu, ynghyd â'r ymgynghoriad ar y materion hyn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn yr un modd, mae darparu ffynhonnell y data pysgodfeydd ac esboniad o ba ddata sydd ar gael ac nad yw ar gael yn bodloni fy nghais am wybodaeth yn hyn o beth.

Yr unig bwynt i mi ei godi sydd heb gael ei gydnabod yn benodol yw'r angen i ailasesu effeithiau gwaith stancio/carthu yn ôl yr amserlen newydd os bydd y gwaith yn rhedeg yn hwyr. Nodaf y pwynt fod rhediadau eog, siwin, llysywen bendoll yr afon a llyswennod yn digwydd ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Nid wyf yn anghytuno â bod hyn yn gyfystyr â golygu nad oes amser "cyfleus" i'r gwaith hwn gael ei gynnal. Fodd bynnag, bydd gwaith stancio/carthu yn cael mwy o effaith ar rai adegau na'i gilydd - h.y. cyfnodau prysur y gwanwyn/haf pan fydd pysgod yn mynd a dod o Harbwr Pwllheli yn amlach - ac mae hyn yn ei gwneud nhw'n 'llai delfrydol' o lawer. Dyma le mae statws rhyngwladol y llysywen Ewropeaidd yn dod yn bwysicach hefyd (er y cytunaf nad yw'n newid arwyddocâd yr effaith fel y'i hasesir yn y Datganiad Amgylcheddol ar hyn o bryd). Nid oes angen unrhyw waith neu wybodaeth ychwanegol ar hyn o bryd ond hoffwn gydnabyddiaeth y gallai'r effaith ar rywogaethau o bysgod mudol sy'n destun pryder cadwraethol fod yn wahanol i'r effaith a aseswyd ar hyn o bryd (cynyddu yn yr achos hwn) os bydd angen cynnal gwaith stancio/carthu yn y gwanwyn.

Un pwynt bach a godir isod sydd angen eglurhad yw'r amseriad a nodir ar gyfer rhediad gleisiaid. Isod, mae'n nodi 'Mae rhediad gleisiaid (eog, siwin) yn digwydd ddiwedd mis Ebrill ac ym mis Mai.' Mae hyn yn wahanol i'r amserau a nodir yn y Datganiad Amgylcheddol (o'r un ffynhonnell) sy'n nodi bod gleisiaid yn tueddu i symud o'r afonydd a thrwy Harbwr Pwllheli yn y gwanwyn (mis Mawrth ac Ebrill)'.

Ymateb yr Ymgeisydd i Cefas:

Rhediad gleisiaid yn digwydd o ddiwedd Ebrill i fis Mai. Rwy'n meddwl mai camgymeriad oedd y mis Mawrth-Ebrill a roddwyd yn y Datganiad Amgylcheddol a'i fod heb ei ddiweddarau ar ôl cael y wybodaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Ymddiheuriadau am unrhyw ddryswch, ni chredwn fod hyn yn newid casgliadau ein hasesiad.

Ymateb Cefas i Sylwadau'r Ymgeisydd

O ran yr esboniadau a roddwyd gan yr ymgeisydd ar gyfer Academi Hwyllo Genedlaethol a

Chanolfan Ddiggwyddiadau Pwllheli, rydym yn fodlon â'r ymateb. Mae'r wybodaeth a roddir yn adran 7 (o dudalen 28, Applicant Supporting Documents HRA Screening.pdf) am yr asesiad o'r llwythi gwaddod presennol ym Mae Ceredigion yn ddigonol. Hefyd, mae'r ymateb ynglŷn â gleisiaid yn egluro ac yn ateb y materion pysgodfeydd dan sylw.

Ymateb y Tîm Trwyddedu Morol:

Nodwyd nad oedd amser delfrydol ar gyfer gwaith stancio ac nad yw asesiad o amserau yn y Datganiad Amgylcheddol wedi cynnwys gwaith stancio a charthu ym mis Mawrth. Bydd gwaith stancio a gwaith carthu cyfalaf y prosiect yn destun amodau i sicrhau nad yw'r gwaith hwn yn digwydd yn y cyfnod heb ei asesu. Mae'r ymgeisydd yn ymwybodol y bydd angen ailasesu'r cyfnod os na fydd y gwaith yn cael ei wneud ar amser. Nodyn: nid oes gan y Tîm Trwyddedu Morol unrhyw ddyllanwad ar yr ardal garthu cynnal a chadw gan ei bod wedi'i heithrio o dan a.75 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, felly ni ellir gosod amodau arni – mae gan yr ymgeisydd bwerau i wneud gwaith carthu cynnal a chadw fel y mynna.

Mae'r ymgeisydd wedi ymateb i holl bryderon eraill Cefas ynglŷn â physgodfeydd.

C: Ecoleg fenthig

8. Prif effeithiau posibl y prosiect (yn ystod y gwaith adeiladu a phan fydd ar waith) ar ecoleg fenthig yw cynnydd yn y deunydd solet mewn daliant sy'n gysylltiedig â'r gwaith carthu cyfalaf a chynnal a chadw ar yr ACA a cholli 2.3ha o fflatiau llaid rhynglanwol (nodwedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth o bwysigrwydd cenedlaethol). O ran y deunydd solet mewn daliant, rhoddir crynodeb o rai cyfrifiadau am y cynnydd a ragwelir yn llwyth y gwaddodion mewn daliant (cynnydd o 3.3%) a byddwn yn cytuno nad yw hynny'n debygol o gael effaith andwyol ar nodweddion yr ACA, er na chyfeirir at union leoliad a natur y nodweddion hyn. Defnyddir yr un rhagamcaniad o lwyth gwaddodion i asesu'r effaith bosibl ar y graean lleidiog cysgodol (sydd hefyd yn un o nodweddion y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth) - rwy'n cytuno nad yw'r cynnydd o 3.3% yn debygol o effeithio ar gyfanrwydd y nodwedd hon chwaith.
9. Er na chasglwyd unrhyw ddata newydd, mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r Datganiad Amgylcheddol i weld yn addas i'r diben. Mae'n cynnwys cyfeiriad at safleoedd dynodedig, effeithiau ffisegol y gwaith carthu, a chyfeiriad at y rhywogaethau biolegol yn y fflat llaid rhynglanwol o waith blaenorol. Nid oes arolwg o'r infertebratau sy'n ymgynnull ar y fflat llaid ym Mhwllheli wedi'i gynnal ers 2004 ond maent yn annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol.
10. Colli 2.3 ha o fflatiau llaid rhynglanwol, sef un o nodweddion y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yw effaith fwyaf arwyddocaol y prosiect hwn – effaith yn ystod y gwaith adeiladu a fydd, oherwydd ei natur, yn para pan fydd y cyfleuster ar waith. Ni ellir lliniaru'r golled hon (eang ac arwyddocâd andwyol mawr) ac amlinellir mesurau digolledu (bydd tua 14.25 ha o fflatiau llaid yn yr harbwr yn cael eu dynodi fel estyniad i'r warchodfa natur leol). Rwy'n cyfeirio at farn CNC (cyngori) (CCGC gynt) ar ba mor addas yw hyn fel mesur digolledu ar gyfer y prosiect hwn.
11. Sonir am fonitro gwaddodion mewn daliant yn ystod y gwaith carthu a dad-ddyfrio

gwaddodion, ond prin yw'r wybodaeth am sut y cyflawnir hyn. Byddwn yn awgrymu y dylai'r mesur lliniaru hwn fod yn un o amodau'r drwydded.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Nodwyd, mae CNC (cyngori) wedi cytuno ar gynllun digolledu ar y cyd â'r ymgeisydd.

O ran pwynt 11, rydym yn bwriadu cynnwys yr amod yn unol ag argymhelliad CNC (cyngori), hefyd "Bydd rhaglen ar gyfer monitro ansawdd dŵr ac archwilio'n weledol y cyfleusterau dad-ddyfrïo yn yr ardal adfer yn rheolaidd yn cael ei chytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn i'r gwaith ddechrau. Dylai hyn gynnwys cytundeb ar y trothwy ar gyfer gwaddodion mewn daliant, a dulliau ac amllder y gwaith monitro. Dylai'r rhaglen fonitro nodi dulliau lliniaru os bydd y llwyth gwaddodion yn fwy na'r targedau hefyd."

D: Prosesau arfordirol

12. Mae'r materion amgylcheddol a ystyriwyd o ran yr effaith bosibl ar yr amgylchedd ffisegol yn ystod y gwaith adeiladu a phan fydd y cyfleuster ar waith yn briodol ac mae crynodeb ohonynt yn Nhabl 2.1 (tudalen 10). Mae effeithiau gweddilliol ac effaith gronnus yn cael eu crynhoi a'u hasesu ym Mhenodau 14 a 15 (tudalennau 246 a 263).
13. Mae'r data llinell sylfaen a roddir ar gyfer gwaddodion ac ansawdd dŵr yn briodol ond nodir nad oes data ar gael am y llwyth gwaddodion mewn daliant ar hyn o bryd ym Mae Ceredigion (adran 7.5.1, tudalen 87); mae'r wybodaeth hon yn berthnasol ar gyfer asesu'r effaith bosibl ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau oherwydd y cynnydd mewn crynodiadau gwaddod mewn daliant (5.2, tudalen 18 Atodiad 6.1). Dylid diweddarau gwerthoedd llwyth crynodiad gwaddod mewn daliant (mae'r data y cyfeirir ato yn dyddio o 1986) a dylid cynnwys y gwerthoedd y cyfeirir atynt fel lefelau "normal" neu lefelau cefndir (7.4, tudalen 80; 5.2, tudalen 19, Atodiad 6.1).
14. Nid yw'r disgrifiad o'r amgylchedd yn gywir o ran hydrodynameg gan fod y disgrifiad yn fwy ansoddol (e.e. tonnau bach mewn uchder, 6.4.1, tudalen 72) na meintiol; ni roddir manylion uchder ton arwyddocaol cymedrig a chyfnod ton cymedrig yn ardal yr astudiaeth. O ystyried nodweddion ardal yr astudiaeth, mae'r wybodaeth am wynt a thonnau a roddir (6.4.1, tudalen 72) yn debygol o fod yn ddibynadwy, ond dylid rhoi tystiolaeth.
15. Mae amseriad mwyafrif y data sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiadau llinell sylfaen yn briodol (adrannau 6.4, 7.4 ac 8.4, tudalennau 71, 79 a 94) mewn perthynas ag arolygon hydrograffig, y llanw, gwaddodion ac ansawdd dŵr. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth am y data gwynt a thonnau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad (6.3.1, tudalen 70) a dylid ei darparu.
16. Ni fu modd asesu'r disgrifiad o effeithiau posibl yn Atodiad 6.1 gan nad yw'r dystiolaeth yn gyflawn. Dylid rhoi allwedd i ffigurau fel bod modd asesu canlyniadau'r model.
17. Nid oes asesiad o gywirdeb ystadegau wedi'i gynnwys fel rhan o'r model rhifiadol a gyflwynir yn Atodiad 6.1; dylai hwn gael ei ddarparu gan yr ymgeisydd.
18. Mae mesurau lliniaru mewn perthynas â hydrodynameg, gwaddodion a phridd yn foddhaol (adrannau 6.5.1, 6.5.2, 7.5.1 a 7.5.2, tudalennau 74, 76, 87 ac 88). Mae'r mesurau lliniaru ar gyfer ansawdd dŵr yn briodol ac maent i'w gweld yn 8.5.1 (yn ystod y gwaith adeiladu) ar dudalennau 96-97 ac 8.5.2 (pan fydd y cyfleuster ar waith) ar dudalen 98). Yn ystod gwaith adeiladu'r bwnd, adfer tir a charthu, mae cynlluniau monitro ac archwiliadau gweledol rheolaidd o'r cyfleusterau dad-ddyfrïo yn cael eu hystyried a byddant yn cael eu cytuno gyda CNC; bydd y mesurau hynny'n berthnasol i waith carthu cynnal a chadw a newydd o sicrhau na

fydd gwaddodion yn cael eu rhyddhau i Harbwr Pwllheli, (3.4.1, tudalen 26; 16.5, tudalen 277-278). Cyn y gwaith adeiladu, cytunir ar lefelau deunydd solet mewn daliant gyda CNC; os nad yw'r lefelau a welir yn dderbyniol, dylid rhoi mesurau lliniaru ychwanegol ar waith yn ddi-oed fel y nodir gan yr ymgeisydd yn 3.4.1, (tudalen 26). Ni chynigir cynlluniau monitro mewn perthynas â hydrodynameg (16.5, tudalen 277). Ni chynigir cynllun monitro pan fydd y cyfleuster ar waith (adran 7.5.2 ar dudalen 88 ac adran 8.5.2 ar dudalen 98).

Ymateb yr Ymgeisydd i Cefas:

Nodir Ymateb yr Ymgeisydd i sylwadau Cefas o dan bob pwynt (YY).

Mae'r materion amgylcheddol a ystyriwyd o ran effaith bosibl ar yr amgylchedd ffisegol yn ystod y gwaith adeiladu a phan fydd y cyfleuster ar waith yn briodol ac mae crynodeb ohonynt yn Nhabl 2.1 (tudalen 10). Mae effeithiau gweddilliol ac effaith gronnu yn cael eu crynhoi a'u hasesu ym Mhenodau 14 a 15 (tudalennau 246 a 263).

YY: Nodwyd

Mae'r data llinell sylfaen a roddir ar gyfer gwaddodion ac ansawdd dŵr yn briodol ond nodir nad oes data ar gael am y llwyth gwaddodion mewn daliant ar hyn o bryd ym Mae Ceredigion (adran 7.5.1, tudalen 87); mae'r wybodaeth hon yn berthnasol ar gyfer asesu'r effaith bosibl ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau oherwydd y cynnydd mewn crynodiadau gwaddod mewn daliant (5.2, tudalen 18 Atodiad 6.1). Dylid diweddarau gwerthoedd llwyth crynodiad gwaddod mewn daliant (mae'r data y cyfeirir ato yn dyddio o 1986) a dylid cynnwys y gwerthoedd y cyfeirir atynt fel lefelau "normal" neu lefelau cefndir (7.4, tudalen 80; 5.2, tudalen 19, Atodiad 6.1).

YY: Rydym wedi cyflwyno gwybodaeth bellach i CNC (cynghori) am y llwyth gwaddod ym Mae Ceredigion ar hyn o bryd mewn perthynas â'r asesiad ar effaith gwaddodion ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno hefyd yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol, ac rwyf ar ddeall ei bod wedi cael sêl bendith CNC ac Uned Rheoli Datblygiadau Cyngor Gwynedd. Mae copi ynghlwm.

Nid yw'r disgrifiad o'r amgylchedd yn gywir o ran hydrodynameg gan fod y disgrifiad yn fwy ansoddol (e.e. tonnau bach mewn uchder, 6.4.1, tudalen 72) na meintiol; ni roddir manylion uchder ton arwyddocaol cymedrig a chyfnod ton cymedrig yn ardal yr astudiaeth. O ystyried nodweddion ardal yr astudiaeth, mae'r wybodaeth am wynt a thonnau a roddir (6.4.1, tudalen 72) yn debygol o fod yn ddibynadwy, ond dylid rhoi tystiolaeth.

YY: Nid oedd data fel y cyfryw ar gael ar gyfer yr asesiad. Sail yr asesiad oedd barn broffesiynol, gan ystyried nodweddion ffisegol ardal yr astudiaeth, yn cynnwys natur gaeedig yr harbwr, a chydabod y pellter byr sydd gan donnau i ddatblygu.

10. Mae amseriad mwyafrif y data sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiadau llinell sylfaen yn briodol (adrannau 6.4, 7.4 ac 8.4, tudalennau 71, 79 a 94) mewn perthynas ag arolygon hydrograffig, y llanw, gwaddodion ac ansawdd dŵr. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth am y data gwynt a thonnau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad (6.3.1, tudalen 70) a dylid ei darparu.

11. Ni fu modd asesu'r disgrifiad o effeithiau posibl yn Atodiad 6.1 gan nad yw'r dystiolaeth yn gyflawn. Dylid rhoi allwedd i ffigurau fel bod modd asesu canlyniadau'r model.

Nid oes asesiad o gywirdeb ystadegau wedi'i gynnwys fel rhan o'r model rhifiadol a gyflwynir yn Atodiad 6.1; dylai hwn gael ei ddarparu gan yr ymgeisydd."

YY: Mae copi diwygiedig o'r adroddiad yn atodiad 6.1 sy'n ymateb i bwyntiau 10, 11 a 12.

Ymateb Cefas i Sylwadau'r Ymgeisydd

Nodir bod yr ymgeisydd wedi ystyried y cwestiynau/pwyntiau (rhifau 7 i 12) sy'n codi o'r cyngor a roddwyd ar brosesau arfordirol. Mae'r sylwadau canlynol yn ceisio ateb ymatebion yr ymgeisydd:

Ymateb 7: nodwyd gan yr ymgeisydd.

Ymateb 8: o ystyried y mesurau lliniaru mewn perthynas ag effeithiau gwaddodiad yn sgil carthu (tabl 3.1, tudalen 16 y Datganiad diwygiedig), a'r asesiad o effeithiau posibl llwytho gwaddodion ym Mae Ceredigion (5.2, tudalen 22-24 Atodiad 6.1 diwygiedig), mae pryder am effeithiau llwytho gwaddodion yn sgil carthu. Fodd bynnag, ni allaf ddod o hyd i'r gwerthoedd SSC naturiol neu gefndir ym Mae Ceredigion y cyfeirir atynt yng nghwestiwn 8. A all yr ymgeisydd nodi yn ble mae'r gwerthoedd hyn wedi'u cynnwys?

Ymateb 9: Rwy'n cytuno ag ymateb yr ymgeisydd, ond byddai asesiad yn haws pe bai graddfa'n cael ei hychwanegu at Ffigurau 4 – 13 (Atodiad 6.1 diwygiedig).

Ymateb 10: yn dilyn y sylwadau a roddwyd yn ymateb 9, tybir bod y data gwynt a thonnau y sonnir amdano yn 6.3.1 (tudalen 70, Datganiad Amgylcheddol) ac a ddefnyddir yn yr asesiad, yn cyfateb i'r un data ag y cyfeirir ato yn ymateb 9.

Ymateb 11: Nodir bod yr allwedd wedi'i hychwanegu yn ffigurau 4-13 yn unol â'm cais.

Ymateb 11: Nodir hefyd fod yr ymgeisydd wedi cynnwys canlyniad sefydlogrwydd enghreifftiol (4.1, tudalen 20 Datganiad diwygiedig); ond nid yw hon yn dystiolaeth graddnodi / dilysu. Er nad yw'r ymgeisydd wedi darparu mesuriadau o gywirdeb ystadegau, nid oes unrhyw bryderon eraill.

O ran y dogfennau newydd a roddwyd gyda'r neges e-bost isod, mae gen i ambell sylw bach:

-Mae angen newid croesyfeiriadau Ffigur 4 (tudalen 13) a 13 (tudalen 18) (Atodiad 6.1 diwygiedig) gan fod gwall fformadu ynddynt yn ôl pob golwg.

-Dylai Ffigur 16 (tudalen 23, Atodiad 6.1 diwygiedig) gynnwys labeli unedau ac echelau.

-Dylai'r sylw yn 7.1 (tudalen 31 y Datganiad Amgylcheddol diwygiedig) gynnwys cyfeiriad at yr astudiaethau a'r gwaith y sonnir amdanynt: "Cynhaliwyd adolygiad o astudiaethau geomorffolegol diweddar a gwaith blaenorol yn yr harbwr a daethpwyd i'r casgliad bod unrhyw waddodion sy'n gadael yr harbwr yn debygol o wneud hynny tua'r dwyrain.". Mae gwall teipio ("geomorphological") yn y datganiad hwn yn y Saesneg hefyd.

Ymateb yr Ymgeisydd i Cefas:

Mae'r wybodaeth am y llwyth ym Mae Ceredigion ar hyn o bryd yn y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol, ac mae'r copi diweddaraf sydd wedi cael cymeradwyaeth CNC at ddibenion y cais cynllunio ynghlwm. Cyflwynir y wybodaeth yn Adran 7, o dudalen 28 ymlaen. Yn seiliedig ar ein harolygon hydrograffig hanesyddol, rydym wedi gallu cyfrifo, ar gyfartaledd, faint o waddod sy'n cael ei gludo i'r harbwr o'r bae gan bob llanw. Mae hyn yn rhoi syniad da i ni o lwyth gwaddod y bae ar hyn o bryd.

Ymateb Cefas i Sylwadau'r Ymgeisydd

O ran yr esboniadau a roddwyd gan yr ymgeisydd ar gyfer Academi Hwyllo Genedlaethol a Chanolfan Ddigidol Pwllheli, rydym yn fodlon â'r ymateb. Mae'r wybodaeth a roddir yn adran 7 (o dudalen 28, Applicant Supporting Documents HRA Screening.pdf) am yr asesiad o'r llwythi gwaddod presennol ym Mae Ceredigion yn ddigonol.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol:

Mae'r ymgeisydd wedi ymateb i bryderon Cefas, mae Cefas a CNC (cyngori) wedi argymhell mesurau lliniaru priodol. Nid yw sylwadau am wallau cyflwyno nad ydynt yn effeithio ar y cyngor technegol wedi'u cynnwys gan nad ydynt yn effeithio ar y broses benderfynu.

E: Mân sylwadau technegol

19. Dylid dangos lleoliad neu ffiniau Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau yn Ffigur 1.2 (tudalen 2, Pennod 1) gan y cyfeirir ati yn 1.4.5 (tudalen 5).

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Nodwyd ond nid yw'n effeithio ar y broses benderfynu

F: Ansawdd y deunydd carthu:

20. Gofynnwyd am samplau ar gyfer y cais hwn ac maent yn cael eu casglu a'u dadansoddi ar hyn o bryd. Byddaf yn rhoi cyngor pellach ar ba mor addas yw'r deunydd sydd i'w garthu a'i

ailldefnyddio pan fydd canlyniadau'r dadansoddiad cemegol ar gael.

Tîm Trwyddedu Morol: Nodwyd, bydd cymryd samplau yn un o amodau'r Drwydded Forol. Bydd yr amod yn rhwystro'r gwaith carthu cyfalaf ac yn rhwystro gwaredu deilliannau'r gwaith carthu cynnal a chadw islaw MHWS nes i samplau gael eu dadansoddi a'r gwaith carthu a dyddodi gael ei gymeradwyo. Bydd amodau eraill yn cael eu hychwanegu bryd hynny os bydd angen.

G:Dull carthu:

- 21. Cynigir defnyddio peiriant carthu torri a sugno ar gyfer y gwaith carthu. Bydd yr holl ddeilliannau carthu yn cael eu pwmpio trwy bibell a'u cadw o fewn bwnd o gerrig wedi'i adeiladu yn yr harbwr presennol, i'r de-orllewin o'r ardal garthu. Mae'r math o waith carthu a'r dull carthu dan sylw yn addas ar gyfer y safle hwn. Dylid defnyddio arferion gorau yn ddi-ffael ac mae'n bosibl y bydd CNC am gyflwyno sylwadau ar y mater hwn.**

Tîm Trwyddedu Morol: Nodwyd, mae CNC wedi cyflwyno sylwadau

H: Dewisiadau amgen i waredu yn y môr:

- 22. Mae'r prosiect yn bwriadu ailldefnyddio'r deunydd yn y gwaith adeiladu ac adfer tir yn hytrach na'i waredu yn y môr.**

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Nodwyd

I: Dynodiadau cadwraeth

- 23. Mae'r gwaith arfaethedig wedi'i leoli tua 100m o ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a 170m o SoDdGA Mynydd Tir y Cwmwd a'r Glannau at Garreg yr Imbill. Mae'r safleoedd hyn wedi'u dynodi am:**

ACA Pen Llŷn a'r Sarnau - banciau tywod, morydau, morlynnoedd arfordirol, cilfachau a baeau, creigresi, fflatiau llaid a fflatiau tywod, llyrllys, dôl heli'r lwerydd, ogofau môr, dolffiniaid trwynbwl, dyfrgwn, morloi llwyd

SoDdGA Mynydd Tir y Cwmwd a'r Glannau at Garreg yr Imbill – nodweddion daearegol, botanegol a bioleg y môr

- 24. Credaf fod lleoliad, natur a graddfa'r gwaith yn gofyn am brawf o effaith sylweddol debygol o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, ond rwy'n cyfeirio at CNC (Cynghori) (CCGC gynt) ar y mater hwn.**

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Mae prawf o effaith sylweddol debygol wedi'i gynnal gan y prosiect, mae CNC (swyddogaethau Corff Gwarchod Natur Statudol) yn cytuno â'r casgliad na fydd effaith arwyddocaol.

J: Gofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

- 25. Pennwyd bod angen EIA o dan Atodiad II paragraffau 1(g), 2(c), 10(e) a 10(k) o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd yn 2011), ac felly cwblhawyd EIA ac fe'i cyflwynwyd gyda'r cais hwn.**

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: nodwyd

K: Crynodeb

26. Yn seiliedig ar fy asesiad o'r cais hwn, credaf fod angen canlyniadau'r dadansoddiad cemegol a rhywfaint o wybodaeth bellach ar gyfer yr EIA o hyd (manylion yn y paragraffau uchod) cyn y gellir penderfynu ar y cais hwn. Ar ôl darparu'r wybodaeth hon, os gwneir penderfyniad ffafriol ar y cais hwn, byddwn yn argymhell bod yr amodau canlynol yn berthnasol i'r drwydded. Nodwch hwyrach y bydd angen amodau pellach hefyd ar ôl asesu'r dadansoddiad cemegol o'r deunydd i gael ei garthu.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn unol â'r gofyn, ac mae hyn wedi mynd i'r afael â'r pryderon bod angen gwybodaeth bellach ar gyfer yr EIA. Nid yw Cefas wedi dadansoddi'r samplau, mae'r risg amgylcheddol wedi'i lliniaru gan amod na roddir caniatâd i'r ardal carthu cyfalaf nac i ddyddodi deilliannau'r gwaith carthu cynnal a chadw nes bod samplau wedi'u dadansoddi a'r agwedd hon ar y gwaith a gymeradwyir gan CNC ar ran yr awdurdod trwyddedu.

Sylwadau Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

"Mae staff y Gangen Diogelwch Mordwyol wedi pwysu a mesur y cynnig a gellir nodi nad yw'r gwaith yn debygol o gael effaith andwyol, o ran diogelwch mordwyo, ac maent wedi argymhell nifer o amodau.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Mae'r amodau a argymhellwyd a oedd yn addas ym marn y Tîm Trwyddedu Morol wedi'u cynnwys. Nid yw'r amodau isod wedi'u cynnwys:

1. Dylai Deiliad y Caniatâd sicrhau y cymerir camau priodol i leihau difrod i'r traeth/blaendraeth/glannau'r afon/gwely'r môr yn sgil y gwaith.
2. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau y defnyddir y dull arfer gorau i leihau ail-ddaliant gwaddodion yn ystod y gwaith hwn.

Tîm Trwyddedu Morol: Nid yw Amod 1 wedi'i gynnwys oherwydd bydd carthu gwely'r môr yn symud ac yn gwneud 'difrod' i wely'r môr. Nid yw'r Tîm Trwyddedu Morol o'r farn bod yr amod hwn yn briodol yn yr achos hwn. Nid yw Amod 2 wedi'i gynnwys oherwydd natur y gwaith.

Sylwadau Trinity House

Nid oes gan Trinity House wrthwynebiadau i'r cynigion ar gyfer Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru ym Mhwllheli, fel y'u nodir.

Cadarnhau nad oes gofynion marcio ar gyfer y cynigion fel ag y maent.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Nodwyd

Sylwadau'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol

Mae ein hymgyngoreion yn cefnogi'r cais hwn gant y cant.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Nodwyd

Sylwadau Ystâd y Goron

Mae'r gwaith sydd mewn golwg yn effeithio ar Ystâd y Goron ac mae angen caniatâd y tîrfeddiannwr. Mae Ystâd y Goron eisoes mewn cysylltiad â'r ymgeisydd ynglŷn â chaniatâd.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol: Nodwyd

Sylwadau'r Swyddog Gorfodi Morol

"Amgylchedd morol

Mae'r gwaith sydd mewn golwg o fewn ffiniau Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau. Nid wyf yn disgwyl i'r gwaith gael effaith hirdymor sylweddol ar y safle hwn.

Y gwaith yn tarfu ar ddefnyddwyr eraill y môr

Prin iawn fydd yr effaith ar ddefnyddwyr eraill y môr gan mai deiliaid docfâu yn y marina a nifer fach o ddefnyddwyr angorfeydd troi yn yr Harbwr Mewnol yw'r rhain gan mwyaf.

Mordwyo

Prin fydd yr effaith ar fordwyo'n gyffredinol. Dim ond deiliaid angorfeydd yn y marina, ambell ddefnyddiwr angorfeydd troi, a chychod RIB Clwb Hwyllo Pwllheli sy'n teithio i'r doc verso sy'n mordwyo yn yr ardal hon. Bydd y bibell arnofiol sy'n trosglwyddo deunydd wedi'i garthu o'r peiriant carthu torri a sugno bach ar draws y sianel fordwyo i'r ardal adfer tir yn berygl i'r cychod hyn yn unig.

Natur Dymhorol Pysgod a Physgod Cregyn

Mae'r draenogyn môr (*Dicentrarchus labrax*) yn yr ardal gydol y flwyddyn, ac mae poblogaeth o'r hyrddyn llwyd (*Chelon labrosus*) yn byw yn yr Harbwr Mewnol (y Marina) a'r Harbwr Allanol. Yn ystod diwedd y gwanwyn a'r haf, mae'r merfog du (*SpondylIOSoma cantharus*) yn ymweld â'r ardal yn ogystal ag ambell haig o fecryll (*Scomber scombrus*). Nid wyf yn rhagweld y bydd y gwaith arfaethedig yn cael effaith hirdymor ar y rhywogaethau hyn.

Ymwybyddiaeth o'r Cynnig a Chyngor Arall

Dim.

Sylwadau Ychwanegol

Dim.

Amodau Trwyddedu

Hysbysiad o 5 diwrnod.

Sylwadau'r Tîm Trwyddedu Morol. Mae sylwadau'r Swyddog Gorfodi Amgylcheddol yn tynnu sylw at y potensial i effeithio ar ddefnyddwyr cyfreithlon eraill a pherygl i rywogaethau pysgod, er mai effaith fach iawn a byrdymor a ragwelir yn y ddau achos. Roedd sylwadau'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol yn cefnogi'r prosiect ac ni chafwyd sylwadau gan y cyhoedd, felly mae'r Tîm Trwyddedu Morol o'r farn na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr hamdden. Mae rhywogaethau pysgod wedi cael sylw yn ymatebion CNC (cyngori) a Cefas - mae mesurau lliniaru wedi'u cynnig lle bo'n briodol. I gael rhagor o fanylion, trowch at yr adrannau o benderfyniad caniatâd EIA. Argymhellwyd bod yr amod i hysbysu a argymhellir yn cael ei gynnwys, ac mae'r Tîm Trwyddedu Morol yn cytuno â hyn.

Ymgynghorwyd â'r cyrff canlynol ond ni chafwyd ymateb ganddynt, felly tybir nad oes sylwadau ganddynt - Cadw, RSPB, MoD, Swyddog Bioamrywiaeth Lleol a'r Awdurdod Harbwr Lleol. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr Awdurdod Harbwr Lleol yn rhan o'r cais ac y bu gohebiaeth rhwng y Swyddog Bioamrywiaeth Lleol a CNC (cyngori) ynghylch llunio sylwadau cyngori CNC.

Amodau

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, yn cynnwys y Datganiad Amgylcheddol a chanlyniad yr ymgynghoriadau, mae'r Tîm Trwyddedu Morol o'r farn bod yn rhaid cynnwys yr amodau canlynol mewn unrhyw drwydded a roddir ar gyfer y prosiect hwn:

- Bydd y dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 ar gael ar bob adeg resymol i gael eu harchwilio gan swyddogion CNC sydd ag awdurdod priodol a/neu Swyddogion Gorfodi Morol awdurdodedig yn y lleoliadau a nodir yn y paragraff hwnnw.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded hysbysu CNC sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu a Swyddogion Gorfodi Morol awdurdodedig 10 diwrnod cyn y mae disgwyl i'r weithred drwyddedig neu gam unigol o'r weithred ddechrau ac ar ôl cwblhau'r gwaith.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded ganiatáu i swyddogion Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Swyddog Gorfodi Morol Llywodraeth Cymru neu unrhyw un arall sydd wedi'i awdurdodi gan CNC sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu i archwilio'r gwaith ar unrhyw adeg resymol.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau nad yw'r agwedd carthu cyfalaf ar y gwaith yn digwydd nes bod samplau'r gwaddodion wedi cael eu dadansoddi a'u cymeradwyo ar bapur gan y CNC sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.

- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau nad oes unrhyw ddeilliannau carthu yn cael eu dyddodi yn yr ardal adfer tir, fel y'i diffinnir yn amod 1.5 neu fel ôl-lenwad wrth adeiladu wal y cei nes bod samplau'r gwaddodion wedi cael eu dadansoddi a'u cymeradwyo ar bapur gan y CNC sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gyflwyno cynllun wrth gefn ar gyfer llygredd morol i'r Awdurdod Trwyddedu o leiaf 4 wythnos cyn dechrau'r gwaith. Ni chaiff y gwaith ddechrau hyd nes bydd y cynllun wedi ei gymeradwyo.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gyflwyno rhaglen ar gyfer monitro ansawdd dŵr ac archwilio'n weledol y cyfleusterau dad-ddyfrio yn yr ardal adfer yn rheolaidd i gael ei chymeradwyo gan CNC sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu 4 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau. Dylai'r rhaglen fonitro hefyd nodi dulliau lliniaru os bydd y llwyth gwaddodion yn fwy na'r targedau hefyd
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gyflwyno asesiad o'r risg i fioggiogelwch (yn cynnwys manylion unrhyw gynllun pontŵn 'hawdd ei lanhau' a chod ymarfer y marina yn y dyfodol) i CNC sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu i'w gymeradwyo o leiaf 4 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gyflwyno Datganiad o'r Dull Adeiladu o leiaf 4 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau, i CNC sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu i'w gymeradwyo. Dylai'r Datganiad o'r Dull Adeiladu roi manylion llawn y dull carthu, adeiladu wal y cei, ac adeiladu'r pontynau a'r bwnd.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gyflwyno Cynllun Rheoli'r Amgylchedd o leiaf 4 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau, i CNC sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu i'w gymeradwyo. Dylai'r Cynllun Rheoli'r Amgylchedd grynhoi'r camau gweithredu amgylcheddol ac unrhyw fonitro arfaethedig.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau ei fod yn rhoi 10 diwrnod o rybudd o leiaf i sefydliadau pysgotwyr a morwyr cyn i'r gwaith ddechrau.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded roi gwybod i Swyddfa Hydrograffeg y DU am amserlen y gwaith, o leiaf 10 diwrnod cyn i'r gwaith ddechrau, fel bod modd cyhoeddi gwybodaeth ddiogelwch morol a diweddarau siartiau a chyhoeddiadau morol.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded osod bwnd a/neu gyfleusterau storio i ddal tanwydd, olewau, a chemegion sy'n gysylltiedig â pheiriannau, ail-lenwi â thanwydd a chyfarpar adeiladu a'u hatal rhag cael eu rhyddhau i'r amgylchedd morol h.y. dylid defnyddio bwnd/cynhwysydd eilaidd, a dylai capasiti hwnnw fod yn ddim llai na 110% o gapasiti storio'r cynhwysydd mewnol.

- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau nad yw'r graig a ddefnyddir yn cynnwys halogyddion, nad yw'n cynnwys prin unrhyw ronynnau mân, a'i bod yn dod o ffynhonnell gydnabyddedig.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod faint o graig a osodir yn cael ei gadw i'w isafswm a rhaid dychwelyd unrhyw graig dros ben i'r tir.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu, Trinity House, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a swyddfa Hydrograffeg y DU yn cael gwybod am unrhyw graig sy'n cael ei cholli islaw penllanw cymedrig llanw mawr o fewn 48 awr, a'i bod yn cael ei chanfod a'i symud.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau na fydd unrhyw waith stancio a/neu garthu cyfalaf yn mynd ymlaen i fis Mawrth 2014.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau os defnyddir stancio ergydiol, bod gweithdrefnau dechrau'n dawel yn cael eu defnyddio i sicrhau cynnydd graddol yn y pŵer stancio dros gyfnod penodol o amser nes cyrraedd y pŵer gweithredol llawn. Dylai'r dechrau'n dawel bara am 20 munud o leiaf. Os bydd y gwaith stancio'n stopio am fwy na 10 munud, rhaid ailadrodd y weithdrefn dechrau'n dawel.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau nad oes slyri concrit gwastraff neu olchion o waith concrit neu sment yn cael eu rhyddhau i'r amgylchedd morol. Dylid diogelu mannau cymysgu a golchi concrit a sment a dylent fod o leiaf 10 metr o unrhyw gwrs dŵr neu ddraen dŵr arwyneb i leihau'r risg y bydd dŵr ffo'n llifo i gwrs dŵr.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau os bydd concrit yn tasgu ger yr amgylchedd morol, y darperir cyfnod diogelu addas i atal concrit rhag tasgu neu gael ei chwythu gan y gwynt i'r amgylchedd morol. Rhaid clirio unrhyw ddeunydd a dasgodd cyn tynnu'r cyfnod.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod unrhyw ddeunydd araenu/trin yn addas i'w defnyddio yn yr amgylchedd morol a'u bod yn cael eu defnyddio'n unol ag arferion amgylcheddol gorau, (e.e. wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Canllawiau Atal a Rheoli Llygredd Asiantaeth yr Amgylchedd)
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod y prosiect yn cadw at Ganllawiau Atal Llygredd Asiantaeth yr Amgylchedd - works and maintenance in or near water: PPG5 - bob amser. Dylid rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau ar unwaith i CNC sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu drwy fflwch post trwyddedu morol a'r llinell ddigwyddiadau ar 0800 807060 gan roi dyddiad, amser, lleoliad, unrhyw waith lliniaru sydd wedi'i wneud eisoes ac enw a rhif ffôn cyswllt.

- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod pob gwastraff yn ystod y gwaith yn cael ei storio mewn ardaloedd dynodedig sydd wedi'u lleoli ar wahân i ddraeniau dŵr arwyneb a dŵr agored, a bod bwnd o'u hamgylch i ddal unrhyw ollyngiadau.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod y prosiect yn cadw at Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991, ar gyfer ymdrin â deunyddiau gwastraff, bob amser wrth symud gwastraff oddi ar y safle.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod y gwaith mewn cyflwr da bob amser.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod y gwaith yn cael ei symud o islaw'r penllanw cymderig llanw mawr o fewn mis i gael rhybudd i wneud hynny gan CNC sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu ar unrhyw adeg y credwn fod hyn yn angenrheidiol neu'n ddoeth i sicrhau diogelwch mordwyo. Ni cheir ailosod y gwaith heb gymeradwyaeth ysgrifenedig CNC sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu. Deiliad y Drwydded fydd yn atebol am unrhyw gostau a ddaw i ran CNC wrth weithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu.
- Os bydd CNC, yn gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, o'r farn bod angen cymorth Adran y Llywodraeth, yn cynnwys darlledu rhybuddion mordwyo, mewn cysylltiad â'r gwaith neu i gadw'r gwaith mewn cyflwr da neu os bydd drylliad o'r gwaith yn cael ei gario gan y llif, Deiliad y Drwydded fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chael cymorth o'r fath.
- Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau bod unrhyw gyfarpar, strwythurau dros dro, gwastraff a/neu rwbel sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn cael eu symud ar ôl cwblhau'r gwaith.

Gwerthusiad Rheoliadol a phenderfyniad caniatâd EIA

Wrth ystyried y cais i ddatblygu Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigidol, ystyriwyd y canlynol:

- Y Datganiad Amgylcheddol, yn cynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig;
- Darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a'r
- Sylwadau a ddaeth i law.

Drwy ystyried y rhain, gwnaed asesiad llawn a manwl o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl y cynigion ar bobl, ffawna a fflora, priddoedd, dŵr, y dirwedd, asedau materol a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys unrhyw risg i gyfanrwydd safleoedd o bwysigrwydd cadwraethol gerllaw.

Mae'r Tîm Trwyddedu Morol yn cefnogi canfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol, cyn belled â bod yr amodau y cyfeirir atynt uchod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw drwydded a roddir a bod cydymffurfiaeth â'r amodau hynny.

Felly, mae'r Tîm Trwyddedu Morol, gan weithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, yn dod i'r casgliad na fydd y prosiect yn cael effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd. Yn sgil hynny, gellir rhoi penderfyniad caniatâd EIA ffafriol i Gyngor Gwynedd ar gyfer gwaith morol fel rhan o gynllun Academi Hwylïo Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau.

Cymeradwyaeth

Paratowyd gan: Lisa Hopkinson – Tîm Trwyddedu Morol

Llofnod:



Dyddiad: 19 Tachwedd 2013

Cymeradwywyd gan: Eleanor Smart – Arweinydd y Tîm Trwyddedu Morol

Llofnod:



Dyddiad: 19 Tachwedd 2013